Astudiaeth achos: Defnydd o'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol yn 2018/19

Cyd-destun a chefndir

Yr ysgol

Ysgol uwchradd cyfrwng Saesneg yw Ysgol Gymunedol Cwmtawe ac mae'n rhan o gonsortiwm ERW. Mae 1,232 o ddysgwyr ar gofrestr yr ysgol: mae 17.4 y cant yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim (FSM), mae gan 40 y cant anghenion dysgu ychwanegol (ADY), mae gan 4 y cant ddatganiad ADY; mae gan 1.5 y cant Saesneg fel iaith ychwanegol (EAL); ac mae 15 y cant yn ddysgwyr gradd A* ac A byd-eang, yr ystyrir eu bod yn fwy abl a thalentog. Y rhaniad rhwng y rhywiau yn yr ysgol yw 51 y cant o fechgyn a 49 y cant o ferched.

Arweinwyr dynodedig ac aelodau staff addysgu

Mae'r tîm arweinyddiaeth yn cynnwys un Pennaeth, dau ddirprwy Bennaeth, dau Bennaeth cynorthwyol a rheolwr busnes. Mae 73 o athrawon a 15 o gynorthwywyr addysgu yn Ysgol Gymunedol Cwmtawe.

Swm y grant dysgu proffesiynol ychwanegol

Cafodd Ysgol Gymunedol Cwmtawe £28,818 yn y cyfnod 2018/19.

Sut y defnyddiwyd y grant ychwanegol

Cysgodi swyddi/coetsio

Rhoddodd y cyllid a gafwyd gyfle i'r staff gymryd rhan mewn cyfleoedd mewnol i gysgodi swyddi. Nododd aelodau'r uwch dîm arwain swyddogaethau cysgodi swyddi ar sail blaenoriaethau ysgol gyfan fel asesu, cofnodi ac adrodd; pontio cynradd; coetsio yng Nghyfnod Allweddol 3; cynllunio cwricwlwm ac arweinyddiaeth pwnc. Cafodd pob deiliad swydd gysgodi gymorth trwy gydol y broses gan arweinydd penodol a weithredodd fel hyfforddwr drwy gydol y broses.

Cyfarfu deiliad y swydd gysgodol â'i aelod staff arweiniol ar ddiwedd y cyfnod i fyfyrio ar ei brofiadau ac i gael adborth ysgrifenedig a gafodd ei integreiddio wedyn ym mhroses rheoli perfformiad yr ysgol.

Cymorth gyda chynllunio gwersi a myfyrio

Mae Ysgol Gymunedol Cwmtawe hefyd wedi llunio rhaglen strwythuredig ar gyfer cynllunio, arsylwi a myfyrio ar wersi, fel y dangosir isod. Mae gan bob agwedd ar y rhaglen bwyslais mwy pendant ar wahanol ddulliau addysgegol a'r pedwar diben.



Rhaglenni achrededig

Mae gan Ysgol Gymunedol Cwmtawe draddodiad cryf o ddatblygu staff yn broffesiynol ar bob cam o'u gyrfaoedd. Mae'r grant hefyd wedi galluogi mynediad at wahanol raglenni achrededig fel y rhaglenni athrawon rhagorol, athrawon sy'n gwella a chynorthwywyr addysgu rhagorol i'r holl staff gan gynnwys athrawon a chynorthwywyr addysgu. Mae'r staff hefyd wedi cael cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhaglenni dan arweiniad allanol i ennill achrediad.

Paratoi ar gyfer y cwricwlwm newydd

Neilltuwyd amser i'r staff gynllunio ac arwain yn ystod sesiynau HMS yr ysgol i rannu arferion effeithiol. Mae athrawon newydd gymhwyso wedi arwain sesiynau ar y safonau proffesiynol newydd a chanllawiau'r Cwricwlwm i Gymru newydd; ac mae staff eraill wedi arwain gweithdai yn canolbwyntio ar y 12 egwyddor addysgegol a'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol.

Yn ogystal â hyn, ym mhob maes dysgu a phrofiad, rhoddwyd amser i gydweithwyr drafod a myfyrio ar ganllawiau'r cwricwlwm newydd ac i ddechrau cynllunio ar y cyd i gyflwyno prosiect thematig Cyfnod Allweddol 3.

Effaith y grant ar gydweithwyr ar draws yr ysgol

Mae'r grant dysgu proffesiynol ychwanegol wedi galluogi'r staff i gymryd rhan yn effeithiol mewn swyddogaethau cysgodi swyddi, gan arwain at gyfrifoldeb a phrofiad ysgol gyfran neu adrannol ehangach iddyn nhw. Mae hyn wedi cynyddu hyder y staff ac eisoes wedi galluogi'r rhai sydd wedi cymryd rhan i fod yn uchelgeisiol ac ymgeisio'n llwyddiannus am swyddi yn yr ysgol a'r tu allan.

Hefyd, trwy ddatblygu ethos 'drws agored' ar gyfer arsylwadau gwersi, gwelwyd gwelliant mewn hunanfyfyrio craff o safon, gan dreiddio i fanylion penodol arferion effeithiol.

Mae'r ysgol hefyd wedi cydnabod bod rhwystrau wedi eu goresgyn mewn meysydd dysgu a phrofiad gan fod yr holl gydweithwyr, gan gynnwys y cynorthwywyr addysgu, yn cynllunio ar y cyd ac yn rhannu arferion effeithiol i gynorthwyo datblygiad proffesiynol eu cydweithwyr.

Mae mynediad at raglenni achrededig a hyfforddiant mewnol wedi rhoi strategaethau a sgiliau i'r staff fod yn ymarferwyr mwy hyderus ac arbrofi'n fwy wrth gynllunio. Gwelwyd effaith gadarnhaol ymhlith cynorthwywyr addysgu yn arbennig, sy'n fwy hyderus erbyn hyn yn eu swyddogaeth hanfodol yn yr ystafell ddosbarth ac yn gallu gweithio'n fwy annibynnol.

Effaith y grant ar ddysgwyr

Mae arsylwadau gwersi yn dangos datblygiad parhaus sgiliau metawybyddol dysgwyr a'u gallu i hunanfyfyrio mewn ffordd fwy ystyrlon a dwys.

Wrth drafod yr effaith ar ddysgwyr, dywedodd y pennaeth:

'Mae'r dysgwyr yn fwy annibynnol ac yn cymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu; ac mae lefelau cadernid yn datblygu. Mae'r dysgu ac addysgu o ansawdd uchel yn yr ystafell ddosbarth a'r diwylliant bywiog o ddysgu proffesiynol wedi arwain at ganlyniadau cryf iawn i'r dysgwyr yn 2019.'

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w cymhwyso ar draws yr ysgol

Mae'r ysgol wedi gweld manteision cydweithio ar draws meysydd dysgu a phrofiad, yn enwedig ar gyfer Mathemateg a Rhifedd a Gwyddoniaeth a Thechnoleg. Mae cynllunio ar y cyd hefyd wedi galluogi strategaethau effeithiol i gael eu rhannu.

Gwersi a ddysgwyd am ddysgu proffesiynol i'w rhannu ag ysgolion eraill

Yn gyntaf, trwy gyfleoedd cysgodi swyddi, mae'r staff wedi datblygu safbwynt ysgol gyfan ehangach. Mae cynnig y cyfleoedd hyn trwy broses ymgeisio wedi rhoi mwy o arwyddocâd i'r broses hefyd ac wedi annog y staff i ystyried eu hanghenion proffesiynol eu hunain a llwybrau datblygu posibl. Mae defnyddio hyfforddwyr a ymgysylltodd â chydweithwyr y tu allan i'w meysydd pwnc a chael sgyrsiau trwyadl am gynllunio effeithiol a chreadigol wedi bod yn un o gryfderau gwirioneddol yr ysgol.

Yn ail, canfu'r ysgol fod darparu amser penodedig ar gyfer cynllunio ar y cyd, arsylwi gwersi ac adborth wedi cynyddu arwyddocâd gwaith arsylwi a myfyrio ac wedi datblygu pwyslais mwy pendant ar gynllunio. Mae neilltuo amser penodedig ar gyfer cynllunio ym mhob maes dysgu a phrofiad wedi helpu hefyd gyda threfnu staff cyflenwi a chyflwyno ethos o gydweithio a chyd-gymorth ar gyfer y dyfodol.

Mae SharePoint wedi bod yn gwerthfawr o ran rhannu syniadau, problemau posibl ac adnoddau i gynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae wedi rhoi mynediad i'r holl staff at waith yr holl feysydd profiad a dysgu ac wedi hybu gweithio ar draws meysydd.

Canfu'r ysgol hefyd, ar gyfer cydweithwyr sy'n addysgu ac nad ydynt yn addysgu, fod buddsoddi mewn rhaglenni achrededig ar sail gylchol yn cynyddu hyder ac yn gwella ysbryd. Mae'r ysgol wedi elwa ar gynnig cyfleoedd i ymarferwyr ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau newydd er mwyn rhannu ag eraill, ar ôl cwblhau rhaglen.

Y camau nesaf

O ran y camau nesaf, bydd Ysgol Gymunedol Cwmtawe yn:

- parhau i gyflwyno rhaglenni hyfforddi achrededig i athrawon a chynorthwywyr addysgu
- datblygu ymhellach strategaeth ac ethos hyfforddi ysgol gyfan yn yr ysgol ar ôl cyhoeddi dogfennau'r cwricwlwm newydd, gan ddiwygio a phrofi adnoddau cynllunio gwersi.